# Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

## EDT2 04-05 (p4)

Dyddiad: 9 Mawrth 2005
Amser: 9.00 12.30
Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
Teitl: Adolygu'r Canllawiau Cymorth Rhanbarthol

### Diben

1. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor am y datblygiadau diweddaraf mewn perthynas ag adolygiad y Comisiwn Ewropeaidd o'r Canllawiau Cymorth Rhanbarthol.

### Crynodeb

2. Cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd ddogfen ymgynghori yn disgrifio ei ddiwygiad arfaethedig o'r Canllawiau Cymorth Rhanbarthol ym mis Ebrill 2004. Ar ôl ystyried barn yr Aelod Wladwriaethau, cyhoeddodd gynigion diwygiedig ar 17 Rhagfyr 2004. Mae'r papur hwn yn rhoi manylion am y prif newidiadau, yn amlinellu'r cynnydd a wnaed mewn cyfarfod amlochrog a gynhaliwyd rhwng y Comisiwn a'r Aelod Wladwriaethau ar 1 Chwefror 2005, yn ystyried effaith bosibl y newidiadau ar Gymru ac yn tynnu sylw at y camau nesaf yn y broses.

### Cefndir

3. Ar ôl ystyried ymatebion yr Aelod Wladwriaethau i'w ymgynghoriad yn Ebrill 2004, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd gynigion diwygiedig ar gyfer y Canllawiau Cymorth Rhanbarthol ar 17 Rhagfyr 2004. Cynhaliwyd cyfarfod amlochrog â'r Aelod Wladwriaethau ar 1 Chwefror 2005 i drafod y cynigion diwygiedig hyn. Mae gan Aelod Wladwriaethau yn awr hyd 1 Mawrth i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r Comisiwn. Bwriedir cyhoeddi canllawiau drafft ym mis Mai neu fis Mehefin ac i'r broses fod wedi'i chwblhau erbyn hydref 2005.

4. Mae cynigion diwygiedig y Comisiwn yn tanlinellu ei ymrwymiad parhaus i ardaloedd NUTS 2 fel sylfaen i'r Map Ardaloedd a Gynorthwyir. Roedd y DU wedi dadlau yn ei hymateb i'r ymgynghoriad y byddai seilio maint yr Ardaloedd a Gynorthwyir ar ardaloedd NUTS 3 yn rhoi gwell canlyniad penodol. Mae papur diweddaraf y Comisiwn mewn gwirionedd yn rhoi pen ar y ddadl 'NUTS 3'.

5. Y ddau brif newid ym mhapur diweddaraf y Comisiwn yw:

- Diwygio'r meini prawf cymhwyster ar gyfer haen uchaf yr ardaloedd Erthygl 87(3)a (nawr byddant yn ardaloedd â llai na 45% o Werth Ychwanegol Crynswth [GVA] EU25 cyfartalog).
- Lleihad yn yr arddwyseddau cymorth uchaf arfaethedig mewn ymateb i bryderon Aelod Wladwriaethau. Mae'r tabl isod yn dangos yr addasiadau arfaethedig (dangosir yr arddwyseddau uchaf blaenorol a gynigiwyd gan y Comisiwn mewn cromfachau):

| | **Busnesau Mawr** | **Busnesau Canolig eu Maint** | **Busnesau Bach** |
|---|---|---|---|
| **87(3)a rhanbarth <45% o gynnyrch mewnwladol crynswth (CMC)** | 40%<br><br>(roedd yn 50%) | 50%<br><br>(roedd yn 60%) | 60%<br><br>(roedd yn 70%) |
| **87(3)a. rhanbarth < 60% CMC** | 35%<br><br>(roedd yn 40%) | 45%<br><br>(roedd yn 50%) | 55%<br><br>(roedd yn 60%) |
| **87(3)a rhanbarth <75% CMC** | 30%<br><br>(dim newid) | 40%<br><br>(dim newid) | 50%<br><br>(dim newid) |
| **87(3)c rhanbarth effaith ystadegol** | 30% yn gostwng i 15%<br><br>(roedd yn 30% i 20%) | 40% yn gostwng i 25%<br><br>(roedd yn 40% i 30%) | 50% yn gostwng i 35%<br><br>(roedd yn 50% i 40%) |
| **87(3)c rhanbarth isel ei boblogaeth** | 20%<br><br>(dim newid) | 30%<br><br>(dim newid) | 40%<br><br>(dim newid) |
| **87(3)c rhanbarth twf economaidd** | 15%<br><br>(roedd yn 20%) | 25%<br><br>(roedd yn 30%) | 35%<br><br>(roedd yn 40%) |
| **Ardal nas cynorthwyir** | 0<br><br>(dim newid) | 10%<br><br>(dim newid) | 20%<br><br>(dim newid) |

6. At hynny, mae'r Comisiwn wedi darparu:

- Awgrym o sut y bydd lefelau cymorth uchaf yn cael eu gostwng mewn Ardaloedd Effaith Ystadegol, fel y dangosir yn y tabl isod.

| Ardal | Busnesau Mawr | | | Busnesau Canolig eu Maint | | | Busnesau Bach | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Effaith Ystadegol (Gorllewin Cymru a’r Cymoedd) | O 1/1/07 | O 1/1/10 | O 1/1/12 | O 1/1/07 | O 1/1/10 | O 1/1/12 | O 1/1/07 | O 1/1/10 | O 1/1/12 |
| | 30% | 22.5% | 15% | 40% | 32.5% | 25% | 50% | 42.5% | 35% |

- Eglurhad o'r diffiniad o fuddsoddiad cymwys i gael cymorth. Mae wedi dewis gadael y diffiniad o fuddsoddiad cychwynnol fwy neu lai heb ei newid, ond wedi ceisio egluro'r gwahaniaeth rhwng buddsoddiad cychwynnol a buddsoddiad cyfnewid. Mae hyn yn arwyddocaol oherwydd bu rhai'n ofni y gallai'r Comisiwn symud i rwystro cymorth rhag cael ei roi tuag at gostau adnewyddu asedion a allai yn ei dro beryglu'r gallu i ddarparu cymorth, er enghraifft, i fuddsoddiadau 'ail gylch' gan fewnfuddsoddwyr.

7. Sylwn nad yw'r Comisiwn wedi cyfeirio o gwbl yn ei bapur diweddaraf at y Prawf Effaith Arwyddocaol arfaethedig, sydd wedi wynebu gwrthwynebiad o fewn y Comisiwn ac y mae'n ymddangos bellach na fydd yn mynd rhagddo.

## Cyfarfod Amlochrog

8. Yn y cyfarfod amlochrog rhwng y Comisiwn a'r Aelod Wladwriaethau ar 1 Chwefror 2005, y safbwynt y cytunwyd arno ar gyfer y DU oedd:

- Croesawu'r gostyngiadau arfaethedig mewn arddwyseddau cymorth uchaf; ond dadlau bod angen gostwng y lefelau uchaf o hyd, fel nad oes unrhyw gymorth uwch na 50% o gostau prosiect.
- Dadlau bod angen canfod mecanwaith ar gyfer cynnwys yr ardaloedd difreintiedig hynny sydd y tu allan i'r ardaloedd a gynorthwyir fel y'u diffinnir gan y Comisiwn.

9. Yn y cyfarfod bu'r Comisiwn:

- Yn gwrando ar bryderon Aelod Wladwriaethau am arddwyseddau cymorth, ond ni chynigiodd newidiadau pellach.
- Yn clywed, gan nifer o Aelod Wladwriaethau, bod angen am fwy o hyblygrwydd gan Aelod Wladwriaethau wrth benderfynu ymhle i roi cymorth rhanbarthol.
- Yn awgrymu ei fod yn barod i ystyried ehangu cwmpas yr Ardaloedd a Gynorthwyir. Byddai'n ymddangos bod y Comisiwn yn ystyried y posibilrwydd o ddarparu trefniadau trosiannol ar gyfer ardaloedd cyfredol Erthygl 87(3)c fel un mecanwaith ar gyfer sicrhau hyn.

## Y Camau Nesaf

10. Mae gan Aelod Wladwriaethau hyd 1 Mawrth 2005 i ymateb yn ffurfiol i'r Comisiwn. Bydd ymateb ysgrifenedig y DU yn atgyfnerthu'r pwyntiau a wnaed yn y cyfarfod amlochrog ac yn awgrymu dulliau eraill o bennu ardaloedd difreintiedig sy'n addas i'w dynodi'n ‘ardaloedd a gynorthwyir’ ychwanegol. Mae'r modelau sy'n cael eu hystyried yn defnyddio cyfuniad o gynnyrch mewnwladol crynswth a diweithdra yn feini prawf ar gyfer pennu ardaloedd o'r fath.

## Goblygiadau i Gymru

11. Mae cynigion diweddaraf y Comisiwn yn gwella rhywfaint ar sefyllfa gymharol Cymru a'r DU o fewn Ewrop. Nid yw'r diwygiadau'n newid sefyllfa gystadleuol Cymru o fewn i'r DU.

12. Nid yw'r diwygiadau'n newid y goblygiadau targedu gofodol i Gymru, sy'n aros fel yr oeddent yn nogfen ymgynghori wreiddiol y Comisiwn: byddai Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (WWV) yn dal yn gymwys ar gyfer statws Ardaloedd a Gynorthwyir a hwy, oni fydd y Comisiwn yn cyflwyno newidiadau pellach, fyddai'r unig Ardaloedd a Gynorthwyir yng Nghymru.

13. Bydd statws Ardaloedd a Gynorthwyir Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn deillio o'r ffigurau cynnyrch mewnwladol crynswth a ddefnyddir yn y pen draw gan y Comisiwn i bennu cymhwyster. Ar sail y ffigurau Eurostat a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer 2000-2002, byddai Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn cadw statws Erthygl 87(3)a fel rhanbarth â llai na 75% o gynnyrch mewnwladol crynswth EU25 y pen yn hytrach na'r statws Erthygl 87(3)c y byddai wedi ei gael fel ardal 'Effaith Ystadegol'.

14. Mae’r arwyddion diweddar y gall y Comisiwn fod yn barod i ystyried statws trosiannol i ardaloedd 87(3)c presennol i'w croesawu, a phetai newid o'r fath yn digwydd, byddai'n sicrhau y gallai cymorth buddsoddi barhau i'r ardaloedd hynny yng Nghaerdydd, Casnewydd, Powys a Sir y Fflint sydd ar hyn o bryd yn elwa ar statws Erthygl 87(3)c.

## Camau Gweithredu ar gyfer y Pwyllgor Pwnc

15. Er gwybodaeth

**Andrew Davies**
**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth.**

**Rob Halford**
**EPD3**
**Est 3385**